

AT Y GOLYGYDD



Gwyddfor,
Pencacnewydd,
Pwllheli.

Annwyl Olygydd,

Yn erthygl ddiddorol Dr. Bruce Griffiths yn thifyn Gaeaf 2005, cyfeirid at ddau lyfryn o wasg Ysgol y Cyngor, Dolwyddelan - ac ymholiad wedyn tybed a oedd gwasg o'r fath yn unigryw. Dywed yr awdur na chlywsai erioed am wasg ysgol, gynradd nac uwchradd, yn unman arall.

Wrth fy mhenelin 'rwan hyn y mae llyfryn clawr meddal sy'n cynnwys casgliad o englynion gan feirdd Rhoshirwaun, Llŷn. Fe'u casglwyd gan blant yr ysgol gynradd leol, sef Ysgol Llidiardau, a chan y plant y cysodwyd ac yr argraffwyd y cynnwys.

Enwir yr argraffwyr, Bessie Jones a Beti Jones a'u cynorthwyr, Mair Evans, Roberts J. Griffiths, June Wilding ac Evan Evans. Y mae darlun lino o neuadd Rhoshiwaun gan Evan Evans hefyd.

Cefais y llyfryn yn nechrau'r 50'au gan Evan R. Davies a fu'n brifathro yn Rhoshirawun am bymtheg mlynedd cyn symud i Borthygest. Arferwn alw'n achlysurol yn ysgolion Llŷn i chwilio am straeon pan oeddwn yn ohebydd i'r *Cymro*.

Rhoesai Mr Davies y plant ar waith i gasglu - a dysgu - barddoniaeth beirdd y fro, ond detholiad o'u henglynion yn unig sydd yn y llyfryn. Mae deg ar hugain o englynion gan ddau-ar-bymtheg o feirdd. Ymysg y beirdd y mae'r Parch. Roger Jones, awdur yr englyn adnabyddus i'r 'Nyth': '*Ni fu saer na'i fesuiriad ...*' ac Evan G. Hughes a ddaeth yn fuddugol ar y cywydd ym Mhrifwyl Bro Dwyfor 1975.

Ni wn i sierwydd, ond mae'n debyg mai ar wasg o'r Adana y cynhyrchwyd y llyfryn. Yn y cyfnod hwnnw roedd yr Adana yn boblogaidd iawn gan argraffwyr amatur i argraffu posteri a thocynnau cyngerddau ac ati.

Yn gywir,

DYFED EVANS

* * * * *

Yr Ardd,
Cemaes,
Ynys Môn,
LL67 0NW

7 Ionawr 06

Annwyl Olygydd,

Diddorol oedd darllen 'Hanes Penllyn' yn rhifynnau Haf a Gaeaf 2005. Gallaf ychwanegu hyn o stori. Enillodd Penllyn gadair 'Gŵyl Cemaes' (Ynys Môn) yn 1923 am gerdd goffa i'r Parchedig John William. Brynsiencyn. Rhodd Syr Thomas Jones, Amlwch, oedd y gadair. Ffoadur o wlad Belg, E. De Vynk, a oedd yn byw ym Mhorthmadog, a luniodd y gadair ac fe gostiodd ddeunaw gini (gweler llun o'r gadair yn *Y Casglwr*; rhifyn 81). Roedd hefyd wob'r ugain punt yn rhoddedig gan Arglwyddes Thomas, Garreglwyd. Y beirniad oedd Syr John Morris Jones.

Mae'r gadair bellach dan ofal Canolfan Treftadaeth Cemaes trwy law Swyddogion Eisteddfod Ynys Môn wedi iddi fod ym Mhlas Mawr, Conwy, am flynyddoedd.

Yn gywir,

TED HUWS

AR WERTH

1. Jones, Ifano: History of Printing and Printers in Wales & Monmouthshire. Caerdydd 1925 £65
2. Walters, William: History of Llanstephan (Carms). Caerfyrddin 1881, Wedi rhwymo. £45
3. Evans, George Eyre: Aberystwyth Court Leet. Aberystwyth 1902 (Hen gopi Henry Bonsall, Glanpadarn) £130
4. Spurrell, William: History of Carew. Caerfyrddin 1921 (Fel Newydd) £75
5. Fenton, Richard: Historical Tour Through Pembrokeshire 1810 (Argraffiad prin, maint weddol o fawr, braidd yn fre-gus - prynwr i'w gasglu) £190
6. Cyfrol R.C.A.M. Montgomery 1911 £95
Cludiant yn ychwanegol ar wahan i rhif 5.
J. MEURIG JONES,
Brynawelon Swydd Ffynnon, Ystrad Meurig
Ceredigion SY25 6AL
Rhif Ffon 01974 831582

AR WERTH

- Blackmore, R. D., The Maid of Sker 1887 £6.00
Baring-Gould, S., A Book of South Wales. 1905 £15.00
Evans, A. L. Margam Abbey, 1996 £12.00
Young, Sutton & Noyce: Snowdon Biography, 1957 £10.00
Williams, J., Records of Denbigh and its Lordship Vol. I £40.00
Lewis, W. J., Ceredigion: Atlas Hanesyddol, 1955 £3.50
Hughes, S., Archaeology of the Montgomeryshire Canal £4.50
Prowse, L. Augustus John: Drawings, Faber, 1942 £15.00
Augustus John (British Painters Series), 1962 £20.00
A Bibliography of the History of Wales, 1962 £20.00
(cludiant yn ychwanegol. Rhy ddrud? - gwnewch gymnig)
Cysyllter â B. GRIFFITHS,
5 Heol Belmont, Banqor, LL57 2HS
(01248) 371987 annorkett@telco4u.net

Cynhelir

Taith Fws drwy Ddyffryn Ogwen

SADWRN 24 MEHEFIN 2006
i ymweld â
chartrefi enwogion megis

**R. Williams Parry, R. S. Hughes
a Charadog Prichard**

yn ogysyal ag ymweld â

Chawarel Lechi Fwya'r Byd

(mân lle lladdwyd tad Charadog Prichard)

Pris £7.00 y pen

(ceir pryd o fwyd am bris ychwanegol yng Nghwesty'r Royal Oak, Betws y Coed)

(Gellir dal y bws wrth y Westy'r Royal Oak, am 2 o'r gloch)
Cysyllter â'r Golygydd, ☎: 01678 540652

CYMDEITHAS BOB OWEN

FFAIR LYFRAU

(Ail-law a Hynafiaethol)

Canolfan y Morlan, Aberystwyth

DYDD SADWRN 6 MAI

10 y bore - 4 y prynhawn

*Miloedd o lyfrau Cymraeg a Saesneg
ar werth, yn ogystal â phrintiadau a
hen fapiau.*

Mynediad £1

(yn cynnwys te a choffi)

Am fwy o fanylion cysylltwch â
GWYN TUDUR, ar 01970 623174